Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth

17^{eg} Medi gyda'r haul yn tywynnu'n braf cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth yng Nghapel Siloam. Beirniad llefaru eleni oedd Linda'r Hafod o Ynys Môn. Bu'n athrawes Cymraeg ynYsgol Syr Thomas Jones, Amlwch am 35 mlynedd. Enillodd wobrau'n "adrodd" yn ein heisteddfodau lleol a chenedlaethol led-led Cymru. Mae hi'n hyfforddi plant i lefaru ac yn feirniad llefaru ers dros 35 mlynedd bellach mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ein beirniad cerdd oedd Siw Jones o Felinfach. Ers pan yn ifanc bu'n cystadlu mewn eisteddfodau drwy ganu, llefaru a chanu'r piano. Fel arweinydd corau, profodd cryn lwyddiant hyd at lefel cenedlaethol mewn cystadlaethau corawl plant a ieuenctid yn eisteddfodau'r Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifainc. Daw galw cyson arni i feirniadu mewn eisteddfodau ac i arwain cymanfaoedd. Lona Phillips o Abermagwr oedd yn cyfeilio. Mae hi'n cyfeilio mewn eisteddfodau lleol a hi ydy cyfeilydd Adran yr Urdd yn Aberystwyth. Yn Eisteddfod yr Urdd eleni derbyniodd hi a Helen Medi, arweinydd y côr wobr Tlws John a Ceridwen Hughes, Uwchaled am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd ieuenctid Cymru. Yn arwain yn ddeheuig roedd Elen Lewis, Llanfihangel-y-Creuddyn, Parch Ingrid Rose, Pont-rhyd-y-groes ac Aled Evans, Trisant.

Llywydd y dydd oedd y Parchedig Elwyn Pryse, Bow Steet. Mae wedi cadw mewn cysylltiad â Chwmystwyth ers dyddiau ei ieuenctid.

Derbyniwyd naw ymgais am y gadair ar y thema "Deffro" a'r beirniad oedd y Prifardd Dafydd Pritchard. Yr enillydd oedd Steffan Phillips o Gaerdydd ond yn wreiddiol o Aberteifi. Enillodd gadair o waith Alun Jenkins o Bontarfynach. Roedd y derw o fferm y teulu a'r llechen o chwarel Cwm Penmachno. Dymuniad y diweddar John James, Llanfarian (John y Blodau – enillodd amryw o wobrau yn y Sioe Frenhinol am osod blodau) oedd cyflwyno cadair yn Eisteddfod Cwmystwyth er cof am deulu Cwmglas, Cwmystwyth. Roedd wedi trafod hyn gydag Alun ac roedd Alun wedi addo gwneud cadair iddo. Yn anffodus bu John farw cyn gweld ei ddymuniad yn cael ei wireddu, ond cadwodd Alun at ei air gan gyflawni dymuniad John.

Elen Lewis oedd yng ngofal seremoni'r cadeirio a chanwyd y corn gwlad gan Dafydd Morris-Jones. Cyrchwyd y bardd buddugol i'r llwyfan gan Mair a Vicki Jones. Cyfansoddwyd penillion i gyfarch y bardd buddugol gan Aled Evans. Canwyd Cân y Cadeirio gan Guto Lewis o Lan-non.

CERDD

Unawd cyfnod sylfaen cyfyngedig i ddisgyblion ysgolion Mynach a Syr John Rhys:
1$_{af}$ Theo Lewis, Ponterwyd

Unawd blwyddyn 3 - 6 cyfyngedig i ddisgyblion Ysgolion Mynach a Syr John Rhys:
1$_{af}$ Magi Jones, Ponterwyd 2$_{il}$ Ceri Macy, Pontarfynach 3$_{ydd}$ Efa Davies, Pontarfynach

Unawd agored Cyfnod Sylfaen: 1$_{af}$ Agnes Morris-Jones, Ysbyty Cynfyn 2$_{il}$ Theo Lewis, Ponterwyd

Unawd agored blwyddyn 3 a 4: 1$_{af}$ Efa Davies, Pontarfynach

Unawd agored blwyddyn 5 a 6: 1$_{af}$ Magi Jones, Ponterwyd 2$_{il}$ - Ceri Macy, Pontarfynach

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd - disgyblion Cynradd:
1$_{af}$ Angharad Thomas, Llangwyryfon 2$_{il}$ Aista Corpet, Rhayadr 3$_{ydd}$ Efa Davies, Pontarfynach

Canu Emyn - oed Cynradd: 1$_{af}$ Magi Jones, Ponterwyd 2$_{il}$ Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn

Unawd dan 16 oed: 1$_{af}$ Elin Williams, Tregaron 2$_{il}$ Mari Williams, Tregaron

Unawd dan 25 oed: 1$_{af}$ Lois Wyn, Rhydymain 2$_{il}$ Guto Lewis, Llan-non 3$_{ydd}$ Ioan Mabbutt, Aberystwyth

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd – disgyblion uwchradd:
1$_{af}$ Steffan Nicholas, Aberystwyth 2$_{il}$ Elenor Nicholas, Aberystwyth

Canu Emyn dan 60 oed: 1$_{af}$ Ioan Mabbut, Aberystwyth 2$_{il}$ Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 3$_{ydd}$ Mari ac Elin Williams, Tregaron

Alaw Werin agored:
1$_{af}$ Elin Williams, Tregaron 2$_{il}$ Ioan Mabbut, Aberystwyth 3$_{ydd}$ Dafydd Morris-Jones, Ysbyty Cynfyn a

Marianne Jones-Powell, Llandre
Parti Canu: 1af Parti Camddwr 2il Ysgol Syr John Rhys/Mynach 3ydd Merched Bro'r Mwyn
Canu Emyn dros 60 oed:
1af Gwynne Jones, Llanafan 2il Marianne Jones-Powell, Llandre 3ydd Elaine Evans, Pontarfynach a Karen, Aberystwyth
Cân Bop neu Cân allan o Sioe Gerdd: 1af Sara Davies, Llandysul 2il Lois Wyn, Rhydymain
Her Unawd agored:
1af Barry Powell, Llanfihangel-y-Creuddyn ac Efan Williams, Lledrod 3ydd Sara Davies, Llandysul a Lois Wyn, Rhydymain
Unawd Gymraeg:
1af Sara Davies, Llandysul 2il Barry Powell, Llanfihangel-y-Creuddyn 3ydd Efan Williams, Lledrod
Côr: 1af Parti Camddwr 2il Merched Bro'r Mwyn

LLEFARU
Llefaru Cyfnod Sylfaen cyfyngedig i ddisgyblion Ysgolion Mynach a Syr John Rhys:
1afTheo Lewis, Ponterwyd
Llefaru Blwyddyn 3 - 6 cyfyngedig i ddisgyblion Ysgolion Mynach a Syr John Rhys:
1af Magi Jones, Ponterwyd 2il Ceri Macy, Pontarfynach 3ydd Efa Davies, Pontarfynach
Llefaru agored Cyfnod Sylfaen: 1af Theo Lewis, Ponterwyd
Llefaru agored Blwyddyn 3 a 4:
1af Brân Mussey Rogerson, Ponterwyd 2il Tomos Lewis, Ponterwyd 3ydd Mathonwy a Efa Davies, Pontarfynach
Llefaru agored Blwyddyn 5 a 6: 1af Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 2il Ceri Macy, Pontarfynach
Llefaru dan 16 Oed: 1af Elin Williams, Tregaron 2il Mari Williams, Tregaron
Sgen Ti Dalent? Ymgom – Malen, Sara, Ifan a Lili
Llefaru dan 25 oed: 1af Elin Williams, Tregaron 2il Mari Williams, Tregaron
Adrodd Digri: 1af Alun Jenkins, Pontarfynach
Darllen darn o'r Ysgrythur:
1af Gwyneth Davies, Pont-rhyd-y-groes 2il Elin a Mari Williams, Tregaron 3ydd Maria Evans, Rhydargaeau
Cyflwyniad Llafar: 1af Merched Y Wawr Mynach
Her Adroddiad agored:
1af Elin Williams, Tregaron 2il Maria Evans, Rhydargaeau 3ydd Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn

Ysgrif/Stori:
1af Heather Williams, Aberystwyth 2il Swyn Hughes, Dinas Mawddwy 3ydd Aled Evans, Trisant
Brawddeg: 1af John Williams, Southgate 2il a 3ydd Aled Evans, Trisant
Gorffen Limrig:
1af John Meurig Edwards, Aberhonddu 2il Aled Evans, Trisant 3ydd Megan Richards, Aberaeron

Cyfyngedig (Beirniad: Richard Evans, Abermagwr)
Arlunio Cyfnod Sylfaen: 1af Robin White, 2il Theo Lewis, 3ydd Freddie Whithnal, Magi Davies, Luna Davies
Arlunio Blwyddyn 3 a 4: 1af Aidan Davies, Gruff Jenkins, Tirion Brown, Clara Jones a Travis Jones-Kent
Arlunio Blwyddyn 5 a 6: 1af Tilly Gray, Amelia Reeves-McCallam, Lili Macy a Gwen Hopkins

Llun camera:
1af Meinir Davies Pontarfynach 2il Mair Davies, Pontarfynach 3ydd Eiry Jones a Mair Davies, Pontarfynach
Llawysgrifen:
1af Jane Hopkins, Pontarfynach 2il Mair Davies, Pontarfynach 3ydd Jane Hopkins ac Eiry Jones, Pontarfynach